## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion y Gweinidogion

**Gwybodaeth Bellach at Gymeradwyaeth o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 4 Mai 2005**

**At Mark Isherwood:**

Yn ystod y ddadl cyfarfod llawn ar 4 Mai ar y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) (GDRh), bu imi addo i ysgrifennu atoch ynglŷn â chwestiynau a godwyd gennych ynglŷn â Breintryddid y Goron a gweithredu'r GDRh mewn cartrefi gofal.

O ran Breintryddid y Goron, bydd erthygl 49 y gorchymyn drafft, ar wahân i rai eithriadau penodol, yn ymrwymo'r Goron. Mae'r eithriadau yn erthygl 27, erthyglau 29 a 30, erthygl 31 ac erthyglau 32 i 36.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddiddymu Breintryddid y Goron oddi ar ddeddfwriaeth tân a deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Maent yn ei ystyried yn addas i'r ddau fater gael eu trin gyda'i gilydd ac felly nid yw'r GDRh hwn (tân yn unig) yn addas. Mater i'r Llywodraeth yw'r amserlen am GDRh pellach neu ddeddfwriaeth sylfaenol newydd.

O ran eich ail bwynt ar gartrefi gofal, o'r safbwynt cyfreithiol, mae Deddf Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2001 (adran 1(6)) yn galluogi i GDRh ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddeddfiad neu i wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, canlyniadol, trosiannol neu ychwanegol lle'n addas (gweler adran 1 (6) Deddf 2001). Wrth weithredu'r pŵer hwn, bydd y GDRh drafft yn gwneud diwygiadau canlyniadol i (ymysg eraill): Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 (OS 2002/324), Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 (OS 2002/325) a Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 (OS 2002/327).

Lle bydd y gorchymyn drafft yn berthnasol i, er enghraifft, gartref gofal penodol neu gartref plant, mae'r person cofrestredig (mewn perthynas i'r cartref penodol) i sicrhau y cydsynnir â darpariaethau'r gorchymyn ac unrhyw reoliadau a wnaed oddi tano.

Wrth gydsynio i'r Gorchymyn a'r dogfennau cynorthwyol a gynhyrchir wedyn, bwriadwn ffurfio cyfres cynhwysfawr o ofynion a chanllawiau i sicrhau y gall pobl gyfrifol sicrhau safonau uchel o ran diogelwch y bobl sydd yn defnyddio'u cyfleusterau, pa bynnag math o sefydliad y maent yn ei redeg.